cyngor ar bopeth

# Tax credits: the current picture

## Cyflwyniad

**Mae credydau treth yn gydran allweddol o strategaeth y Llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi plant a gwneud i waith dalu. Mae bron i chwe miliwn o aelwydydd yn dibynnu ar gredydau treth i ategu eu hincwm a thalu am eu costau gofal plant[1]. I'r rheini sydd ar yr incymau isaf, gall dyfarniad credyd treth, sy'n cynnwys gofal plant, fod yn rhan sylweddol o'u hincwm wythnosol. Gallai rhiant unigol gyda dau o blant, sy'n gweithio 20 awr yr wythnos am £6 yr awr ac sy'n talu £75 yr wythnos am ofal plant, er enghraifft, fod â'r hawl i gael oddeutu £200 o gredydau treth plant a gwaith. Mae teuluoedd ar incymau uwch yn derbyn £10.**

Ers cyflwyno credydau treth yn 2003 mae Cyngor Ar Bopeth wedi helpu cannoedd o filoedd o bobl gydag ymholiadau ynghylch credyd treth. Roedd ein hadroddiad yn 2005 Arian â'ch enw chi arno? yn tynnu sylw at broblemau'n ymwneud â gweinyddu gwael, systemau cymhleth ond gwybodaeth esboniadol wael, oedi hir wrth ddatrys problemau a lefelau uchel o ordalu ac adennill. Roedd y rhain yn achosi caledi sylweddol i deuluoedd a oedd yn dibynnu ar incwm credyd treth. Yn ymateb i hyn, ymddiheurodd y Prif Weinidog bryd hynny, y Gwir Anrhydeddus Tony Blair AS, am y caledi a achoswyd i rai teuluoedd. Cyhoeddodd y Llywodraeth gyfres o newidiadau gweinyddol. Dilynwyd y rhain gan newidiadau mwy sylweddol i'r rheolau sy'n ymwneud â hawlio taliadau ac adennill gordaliadau yn adroddiad cyn-y-gyllideb 2005.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach mae rhai gwelliannau wedi cael eu cyflwyno. Ond mae credydau treth yn dal i fod yn faes gwaith mawr i'r gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth. Yn ystod 2006/07 roedd Canolfannau Cyngor Ar Bopeth yng Nghymru a Lloegr wedi helpu pobl gyda dros 186,000 o broblemau credyd treth – cynnydd o 21 y cant ers y flwyddyn flaenorol.

Mae tystiolaeth CAB yn awgrymu bod cymhlethdod y system credydau treth yn creu nifer o broblemau i'r rheini sy'n eu hawlio ac sy'n ei chael hi'n anodd deall faint y mae ganddynt hawl iddo. Mae gordaliadau a threfniadau adennill cymhleth a llym yn dal i achosi gormod o ddryswch a chaledi.

Er mwyn deall rhagor am y problemau, aethom ati i ofyn i bobl a oedd yn ymweld â'n gwefan gyhoeddus yn ystod Ebrill a Mai 2007 ddweud wrthym am eu profiadau o hawlio credydau treth. Roedd mil a hanner o bobl wedi ymateb. Yn fras roedd y rheini a ymatebodd yn cynrychioli'r boblogaeth credyd treth yn ei chyfanrwydd, ond roedd nifer anghymesur yn yr arolwg yn ystyried credydau treth i fod yn rhan bwysig iawn o'u hincwm. Caiff y canlyniadau eu crynhoi isod:

1 Ystadegau credyd treth plant a gwaith: dyfarniadau blynyddol terfynol 2005/06, Cyllid a Thollau EM (HMRC). Nodyn: mae chwe miliwn yn cynnwys miloedd o deuluoedd di-waith sy'n dal i dderbyn cymorth nawdd cymdeithasol ar gyfer eu plant a dim credydau treth plant.

## Gwerth incwm credyd treth

Roedd nifer fawr o'r rheini a atebodd yr arolwg (86 y cant) yn teimlo bod credydau treth yn rhan bwysig neu bwysig iawn o'u hincwm. Soniodd nifer o'r ymatebwyr fod incwm credyd treth yn eu galluogi i dalu am eu costau morgais a gofal plant.

> "Gan ein bod mewn swyddi incwm isel, mae'r swm ychwanegol hwn yn help tuag at gostau gofal plant – heb hwn, allwn i ddim gweithio."

> "Allwn i ddim ymdopi heb hwn gan mai dim ond digon i dalu fy ad-daliad morgais yw fy nghyflog bob mis. Felly byddaf yn defnyddio'r credydau treth i dalu gweddill fy miliau a'm costau byw."

> "Mae credydau treth yn 50% o'm hincwm."

Roedd yr ymatebwyr yn llai cadarnhaol am ddibynadwyedd credydau treth fel ffynhonnell incwm. Roedd nifer yn poeni bod natur anwadal taliadau credyd treth yn golygu ei bod hi'n anodd iawn iddynt gyllidebu.

> "Pan rydych ar incwm cyfyngedig, y peth pwysicaf un yw gwybod faint sydd gennych yn dod i mewn a phryd er mwyn i chi allu cyllidebu – dydw i ddim wedi gallu gwneud hyn ers i'r system hon ddechrau, sydd wedi arwain at straen, poen meddwl a chostau o'r banc."

> "Pan fyddwch yn rhwym wrth gyllidebau caeth mae hyn yn anos fyth pan fydd credydau treth yn cael eu cwtogi i adennill gordaliadau. Pan fyddaf yn cael trefn ar fy materion ariannol mae'n rhaid i mi jyglo fy arian yn gyson pan fydd fy incwm o gredydau treth yn newid drwy'r amser."

> "Byddai'n well gen i petawn i byth wedi trafferthu [hawlio], mae'r poen meddwl a'r pryder yn amharu ar fy nghwsg ac yn fy meddwl yn gyson."

> "Rwy'n cyllidebu'n dda iawn, ond nawr mae gennyf ddyled o £5,000 iddynt a hyd yn oed os byddant yn cymryd hwn yn araf deg, byddaf yn poeni oherwydd fy mod mewn dyled, ac y byddaf yn cael llai o gredydau treth neu ddim o gwbl."

> "Roeddwn i wedi cymryd fy swydd gyfredol ar sail y ffigurau a roddwyd i mi ar gyfer fy hawl i gredydau treth. Cyllidebwyd ar gyfer hyn yn eithaf gofalus. Pan roddwyd y dyfarniad roedd y gordaliad yn golygu bod y gyllideb yn ddiwerth."

> "Roedd fy nghredydau treth yn rhan hollbwysig o incwm y cartref a chymerwyd benthyciadau a chardiau credyd gan wybod y gallem eu had-dalu gydag arian y credyd treth, flwyddyn yn ddiweddarach ac rwyf wedi cael gwybod i mi dderbyn gordaliad a chefais ostyngiad o £140 y mis, sy'n golygu na allwn i dalu'r benthyciadau na'r cardiau credyd. Nawr byddaf yn derbyn llythyrau bygythiol gan y casglwyr dyledion bob dydd bron."

## Deall credydau treth

Bydd pawb sy'n hawlio credyd treth yn gyfarwydd â'r hysbysiad dyfarniad credyd treth. Rhoddir hysbysiadau dyfarniadau i hawlwyr pan wneir hawliad a phan gofnodir newid mewn amgylchiadau. Roedd Arian â'ch enw chi arno? yn tynnu sylw at yr angen am welliannau ar frys i hysbysiadau i helpu hawlwyr i ddeall faint

yr oedd ganddynt hawl iddo. Ers Ebrill 2006 mae hysbysiadau dyfarniadau wedi cynnwys rhagor o wybodaeth i helpu pobl i ddeall yr hyn y mae eu dyfarniad yn seiliedig arno. Maent bellach yn dod â rhestr wirio syml sy'n nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid i hawlwyr ei gwirio a pha newidiadau y mae'n rhaid iddynt roi gwybod amdanynt. Serch hynny, nid ydy hysbysiadau dyfarniadau yn egluro unrhyw ordaliadau a all ymddangos.

Roedd ein harolwg yn holi hawlwyr am yr hysbysiad dyfarniad diweddaraf iddynt ei dderbyn. Dyma'r hyn a ganfuom:

- roedd dros hanner y rheini a ymatebodd (58%) yn teimlo ei bod hi'n anodd deall yr hysbysiadau dyfarniad.
- dim ond 28% oedd o'r farn eu bod yn hawdd eu deall.

Roedd yr ymatebwyr a ordalwyd yn fwy tebygol o lawer o deimlo bod eu hysbysiadau dyfarniad yn anodd eu deall na'r rheini nad oeddent wedi'u gordalu (62 y cant/40 y cant).

Roedd hi'n glir o'r sylwadau bod nifer o'r ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd iawn deall sut roedd credydau treth yn cael eu cyfrifo.

> "Roedd fy mywyd yn haws o lawer pan oeddwn i'n hawlio dan yr hen system o dderbyn swm penodol ar gyfer fy mhlentyn bob wythnos ar gymhorthdal incwm. Roeddwn i'n gwybod ble roeddwn i'n sefyll. Mae'r system newydd yn rhy gymhleth o lawer o i mi."

> "Mae hi'n system sy'n amhosibl i'r hawlydd ei deall. Dim yr hyn sydd ar yr hysbysiadau dyfarniad sydd ar eu system nhw bob tro a phan fyddwch chi'n ffonio allwch chi ddim deall yr hyn y maen nhw'n ei ddweud wrthych chi. Dwi'n cael yr argraff nad yw'r bobl ar ben arall y ffôn ddim yn deall llawer iawn eu hunain."

Mae hawliad credyd treth yn seiliedig ar amgylchiadau cartref a gwaith, megis nifer y plant, costau gofal plant ac oriau gweithio, yn ogystal ag incwm blynyddol. Mae gwybod pa amgylchiadau sy'n effeithio ar eich hawl i dderbyn credyd treth yn allweddol i sicrhau eich bod yn osgoi gordaliadau a dirwyon am gofnodi hwyr. Dim ond am dri mis y gellir ôl-ddyddio taliadau credyd treth, felly mae rhoi gwybod yn brydlon yn bwysig i sicrhau na chollir unrhyw hawl.

Roedd dros ddwy ran o dair o'r rheini a ymatebodd yn teimlo eu bod naill ai'n "weddol ffyddiog" neu'n "ffyddiog iawn" eu bod yn gwybod pa newidiadau mewn amgylchiadau yr oedd yn rhaid iddynt eu cofnodi. Roedd yr ymatebwyr a ordalwyd yn llai tebygol o fod yn ffyddiog am y newidiadau yr oedd yn rhaid iddynt eu cofnodi na'r ymatebwyr nad oeddent wedi'u gordalu (67 y cant/74 y cant).


## Gordaliadau

Mae ffigurau Cyllid a Thollau EM yn dangos bod oddeutu traean o'r holl ddyfarniadau wedi'u gordalu bob blwyddyn ar gyfer tair blynedd gyntaf y system.[2] Roedd mwyafrif sylweddol (80 y cant) o ymatebwyr ein harolwg wedi cael gwybod eu bod wedi derbyn gormod o gredydau treth.

2 Ystadegau credyd treth plant a gwaith: dyfarniadau blynyddol terfynol 2005/06, Ychwanegiad ar daliadau 05/06, HMRC.

Roedd traean o'r ymatebwyr a ordalwyd wedi derbyn gordaliadau rhwng £500 a £1,499 (gweler ffigur 1). Roedd dros chwarter o'r rheini a ordalwyd wedi cael gwybod bod arnyn nhw dros £2,500.

**Ffigur 1: Maint y gordaliadau**




Sail: 1,131 o ymatebwyr, arolwg CAB Ebrill/Mai 2007

Roedd deg y cant wedi derbyn dros £5,000 o ordaliad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a ordalwyd (81 y cant) nad oeddent yn teimlo ei bod hi'n hawdd deall pam iddynt dderbyn gordaliad a'i bod yn anodd cael esboniad. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr iddynt gael atebion gwahanol bob tro roeddent yn ffonio.

> "At ei gilydd, cymerodd hi dros bum awr ar y ffôn gyda'r llinell gymorth, dros bythefnos, ac yn olaf, llythyr yn gofyn am ddadansoddiad o'r taliadau a dderbyniwyd cyn i mi allu deall pam fy mod wedi derbyn gordaliad."

> "Hyd heddiw, alla' i ddim deall pam fy mod yn dal i dalu arian yn ôl, ond yn anffodus, mae hi'n edrych fel na alla' i wneud unrhyw beth am y mater, mae'n rhwystredig dros ben. Byddai'n dda gen i petai na fyddai angen yr arian arnom ni wedyn fyddai ddim rhaid i mi ddioddef y straen a'r loes blynyddol hyn."

> "Roeddwn wedi derbyn tri esboniad gwahanol ynghylch pam fod arna' i arian, ac rwyf eto i dderbyn un sy'n gwneud synnwyr. Rwyf nawr wedi cael gwybod nad oes gen i hawl bellach i apelio a bod yn rhaid i mi dalu £588. Dwi'n meddwl bod gen i hawl i dderbyn esboniad manwl y gallaf i ei ddeall cyn i mi gytuno bod arnaf i'r arian hwn."

Dywedodd chwe deg pump y cant eu bod wedi herio'r gordaliad a dywedodd y rhan fwyaf o'r rhain (83 y cant) y bu hyn yn anodd.

> "Gan nad ydym yn gwybod pa feini prawf y mae'r Swyddfa Credyd Treth yn eu defnyddio i gyfrifo'r hawliad, mae hi'n anodd iawn deall sut maent yn cyrraedd eu ffigurau. Felly mae hi'n arbennig o anodd herio a ydw i'n derbyn y swm iawn ai peidio."

> "Mae angen symleiddio'r system yn ei chyfanrwydd gan ei bod hi'n anodd iawn ei deall, dwi'n meddwl dyna pam na fydd y rhan fwyaf o bobl hyd yn oed yn ceisio herio gordaliad."

> "Byddai gwybodaeth fanwl am sut y mae'r dyfarniad/gordaliad wedi'i gyfrifo, yn yr un modd â budd-daliadau eraill, yn galluogi hawlwyr i herio penderfyniadau sy'n ymddangos i fod yn rhai anghywir.

## Adennill gordaliadau

Mae gan Gyllid a Thollau EM ddwy ffordd wahanol o adennill gordaliadau credyd treth. Drwy ofyn am yr arian yn ôl yn uniongyrchol (adennill uniongyrchol) neu drwy ostwng taliadau credyd treth yn y dyfodol. All ddim dewis pa ddull na chyfradd adennill a ddefnyddir yn eu hachos nhw. Os oes ganddynt ddyfarniad

parhaus, bydd y taliadau'n cael eu gostwng 10 y cant, 25 y cant neu 100 y cant, yn ôl maint eu dyfarniad credyd treth. Os oedd y gordaliad yn perthyn i ddyfarniad cynharach (e.e. pan oedd unigolyn sengl yn rhan o gwpl neu fel arall) gofynnir i'r hawlwyr dalu'r arian yn ôl yn uniongyrchol cyn pen 30 diwrnod, gyda dewis i ymestyn y cyfnod i ddeuddeg mis neu ragor drwy drafodaeth. Gall hawlwyr sydd â gordaliad o ddyfarniad yn y gorffennol a dyfarniad cyfredol wynebu adennill y naill a'r llall ar yr un pryd. Gall yr adennill ar y cyd hwn arwain at golli llawer mwy na 10 neu 25 y cant o'u credydau treth.

Dyma ganfyddiadau ein harolwg:

- torrwyd taliadau parhaus 58% o'r ymatebwyr i adennill eu gordaliad
- roedd 31% wedi derbyn gorchymyn talu
- roedd 14% wedi wynebu'r ddau ddull o adennill arian.

Dywedodd yr ymatebwyr fod torri'r taliadau heb rybudd wedi achosi anawsterau dybryd iddynt gyda'u cyllidebau.

> "Roedd darnau mawr o incwm ein teulu wedi diflannu dros nos heb rybudd na gwybodaeth."

> "Rydyn ni'n dibynnu ar y credydau treth a dderbyniwn ac mae peidio â derbyn y swm roedden ni'n ei ddisgwyl ac yr oeddem wedi cyllidebu ar ei gyfer yn sydyn yn gwneud pethau'n anodd iawn."

> "Gan ein bod ar incwm isel, rydym yn cyllidebu ar sail incwm wythnosol, felly pan fydd hwn yn gostwng yn sydyn, gall pethau fod yn anodd iawn, iawn."

> "Mae sioc a straen y gostyngiad sydyn mewn taliadau wedi golygu bod yn rhaid i mi gael benthyg arian gan berthnasau i dalu am gostau gofal plant."

## Caledi

Yn dilyn cyhoeddiadau yn adroddiad cyn-y-gyllideb 2005, ddiwedd 2006 gwelwyd cyflwyno cyfyngiad i'r toriadau y gellid eu gwneud i daliadau. Dylai teuluoedd gyda'r dyfarniadau gwerth uchaf ddim gweld eu taliadau'n cael eu torri mwy na 10 y cant mwyach. Serch hynny, dywedodd 71 y cant o'r ymatebwyr a ordalwyd fod yr adennill wedi achosi neu yn achosi anawsterau ariannol i'w teulu.

> "Rydyn ni wedi gorfod mynd heb eitemau sylfaenol megis dillad a llaeth babi ac ar un adeg bron i'r llinell ffôn gael ei thorri."

> "Roedd fy nghredyd treth plant wedi cael ei gwtogi i £39 ac roedd fy nghymhorthdal incwm yn £39 oherwydd fy mod yn ad-dalu benthyciadau cyllidebu ac ôl-ddyledion treth cyngor. Fe'm rhoddwyd ar feddyginiaeth ar gyfer pryder a straen ac rwy'n dal i gymryd y feddyginiaeth honno."

> "Bu'n rhaid i mi beidio â thalu fy rhent er mwyn i mi allu prynu bwyd i fy merch a minnau. Rwyf wedi cymryd benthyciadau i dalu fy ôl-ddyledion rhent.

> "Ar ôl i'r arian stopio roedd yn rhaid i mi ddod o hyd i arian ar unwaith. Roedd hyn yn rhoi straen ddifrifol ar ein teulu gan fy mod wedi cymryd

swydd a oedd yn golygu gweithio dros nos er mwyn i mi fod gyda fy mhlant yn ystod y dydd. Ar ôl i'n taliadau ailgychwyn roeddent cymaint yn llai ein bod yn ceisio dal i fyny am yr arian yr oeddem wedi'i golli. Mae fy mab wedi derbyn diagnosis o awtistiaeth ond alla' i ddim rhoi'r gorau i'm gwaith. Alla' i ddim treulio'r amser un-wrth-un pwysig sydd ei angen arno gydag ef oherwydd fy mod yn gweithio 9pm tan 3 neu 4am a fy mod mor flinedig."

"Rydyn ni wedi gorfod benthyca arian gan ffrindiau a pherthnasau ac rydyn ni'n llithro i ddyledion. Mae gen i fenthyciad gyda'r banc ac mae yswiriant yn talu am hwnnw tan ddiwedd Mai, ond rydyn ni'n mewn trafferthion mawr ar ôl hynny."

## Profiadau cyffredinol o hawlio credydau treth

Roedd ein cwestiwn olaf yn gofyn i'r ymatebwyr a oedd eu profiadau o hawlio credydau treth wedi eu gwneud nhw'n fwy ynteu'n llai tebygol o fod eisiau eu hawlio eto yn y dyfodol (gweler ffigur 2).

- dywedodd 13% o'r ymatebwyr y byddent yn fwy tebygol o hawlio eto.
- dywedodd 33% nad oeddent yn fwy tebygol nac yn llai tebygol.
- roedd 25% yn llai tebygol.
- dywedodd 24% na fyddent yn bendant eisiau hawlio eto.

Roedd nifer o'r sylwadau'n adlewyrchu bod pobl yn teimlo nad oedd ganddynt unrhyw ddewis ond hawlio gan fod angen yr arian arnynt i oroesi. Er gwaethaf y straen a'r ansicrwydd a wynebwyd ganddynt byddent yn parhau i hawlio.

"Does gen i ddim dewis arall ond hawlio gan fod yr arian yn bwysig iawn i ni ond rwyf wedi colli cwsg drosto."

"Allwch chi ddim dibynnu ar yr arian hwn gan eu bod yn symud y pyst drwy'r amser i bob golwg. Dwi'n teimlo i mi roi gwybod iddynt am yr holl newidiadau, ond roeddent yn dal i ddweud eu bod wedi talu gormod i mi. Dwi ddim yn ymddiried ynddyn nhw o gwbl; yr unig reswm rwy'n dal i hawlio yw oherwydd fy mod yn ad-dalu gordaliad a wnaed ganddynt."

Mae hi'n bryderus bod bron i hanner (49 y cant) o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg yn dweud bod eu profiadau o hawlio credydau treth yn golygu eu bod yn llai tebygol o hawlio credydau treth yn y dyfodol neu na fyddent yn bendant yn eu hawlio eto.

Roedd derbyn gordaliadau'n arwyddocaol iawn o ran pennu profiad cyffredinol rhywun o hawlio credydau treth. Dywedodd pum deg chwech o'r ymatebwyr a ordalwyd eu bod yn llai tebygol o hawlio eto neu na fyddent yn bendant yn hawlio eto o'i gymharu ag 19 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent wedi derbyn gordaliad.

"Roedd y ddyled hon o £5,000 yn hollol annisgwyl a heb ei hystyried yn ein cyllideb. Rwyf nawr yn rhy ofnus i adhawlio credydau treth ar y sail y bydd gennyf ddyled arall."

"Roeddwn i'n derbyn credyd treth oherwydd fy mod wedi fy nghyflogi a fy mod wedi fy nghofrestru'n rhannol ddall. Yn y pen draw roedd yn rhaid i mi ad-dalu £700 a fyddwn i byth yn gwneud cais eto. Maen nhw'n cymryd misoedd i ateb llythyrau ac mae'r

amser a'r ymdrech sydd ei angen i gadw trefn ar y gwaith papur yn enfawr."

"Oherwydd fy amgylchiadau doedd gen i ddim llawer o ddewis ond hawlio, ond os allwn i fyw heb hawlio credydau treth plant fyddwn i'n bendant ddim yn hawlio eto a fyddwn i ddim wedi petawn i'n gwybod y byddwn i'n cael gordaliad mor fawr."

Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr wedi tynnu sylw at effaith difrodus problemau credyd treth ar eu bywydau teuluol. Soniodd pobl am orfod gwerthu eu cartref neu godi ail forgais; am eu teuluoedd yn chwalu ac am ddioddef straen difrifol.

"Rwyf yn y broses o'i frwydro. Os bydd yn rhaid i mi ei ad-dalu fydda' i ddim yn gallu ymweld â'm dau o blant sy'n byw 200 milltir i ffwrdd am y ddwy flynedd y maen nhw'n meddwl y bydd hi'n ei gymryd i mi ei dalu i gyd yn ôl."


"Mae wedi arwain at ragor o ddyledion ac mae'r problemau ariannol wedi arwain at chwalu ein teulu."

"Rwy'n llenwi hwn ar ran fy mab...roedd ei wraig wedi'i adael oherwydd pwysau'r ddyled. Y canlyniad oedd bod yn rhaid i'r teulu gymryd benthyciad na allent mo'i fforddio ac mae fy mab yn gorfod ceisio codi ail forgais i dalu."

Roedd y sylwadau cadarnhaol yn brin ond roeddent yn cynnwys:

"Mae credydau treth yn anhygoel. Maent yn galluogi pobl fel fi i ddychwelyd i weithio ar ôl cael plant a thalu am ofal plant o ansawdd. Heb gredydau treth byddai'r rhan fwyaf o fy nghyflog yn cael ei lyncu gan gostau gofal plant, a byddai'n rhaid i mi gwestiynu o ddifrif a fyddai hi'n werth gweithio o gwbl."

**Ffigur 2: Effaith profiad o gredydau treth ar hawlio yn y dyfodol**




Sail: 1,345 o ymatebwyr, arolwg CAB Ebrill/Mai 2007

## Casgliadau ac argymhellion

Caiff oddeutu £17 miliwn ei dalu i oddeutu chwe miliwn o deuluoedd bob blwyddyn dan y system credydau treth gyfredol. Mae'n fwy hael na'r systemau â'i rhagflaenodd, megis credyd teulu a chredyd treth i deuluoedd sy'n gweithio, ac mae'r nifer sy'n ei hawlio wedi bod yn uwch o lawer. Er hynny, nid yw credydau treth wedi bod yn boblogaidd gyda phawb a'u derbyniodd. Dywedodd y mwyafrif helaeth o bobl a atebodd ein harolwg fod credydau treth yn rhan bwysig o'u hincwm.

Serch hynny, dywedodd bron i hanner y rhain eu bod yn llai tebygol o hawlio yn y dyfodol o ganlyniad i'w profiadau.

Credwn fod angen i Gyllid a Thollau EM wneud y canlynol ar frys:

- Gwella ansawdd y wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael i hawlwyr ar hysbysiadau dyfarniad, dros y llinell gymorth a, phan fo angen, wyneb yn wyneb.
- Rhoi esboniadau bob tro am y rhesymau dros y gordaliad.
- Gohirio camau i adennill gordaliadau tan ar ôl cysylltu â'r hawlwyr.
- Cyflwyno hawl statudol i apelio yn erbyn camau i adennill gordaliadau ar sail gwall swyddogol.
- Cyflwyno cyfyngiadau pellach ar adennill gordaliadau i atal colli gormod o incwm. Ni ddylai hawlwyr orfod wynebu cyfraddau adennill uwch oherwydd bod eu gordaliadau'n cael eu hadennill mewn ffyrdd gwahanol.
- Gweithio'n agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Rhaid iddynt sicrhau nad yw pobl sy'n derbyn budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau a chredydau treth yn wynebu cyfraddau adennill uchel ar y cyd oherwydd y daw eu hincwm o ddwy adran wahanol yn y Llywodraeth.
- Adolygu'r ffordd y mae'r system flynyddol yn cael ei rhedeg ac ystyried cyflwyno dyfarniadau sefydlog i wella sefydlogrwydd incwm, er mwyn galluogi teuluoedd i gyllidebu'n well.

*Ysgrifennwyd gan: Katie Lane*

*Cyhoeddwyd gan:*
*Adran Polisi Cymdeithasol*
*Cyngor Ar Bopeth*
*115-123 Pentonville Road, Llundain, N1 9LZ*

*Ffôn: 020 7833 2181 Ffacs: 020 7833 4371*
*www.citizensadvice.org.uk*

*Cyngor Ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor Ar Bopeth.*
*Rhif cofrestru'r elusen: 279057*

*Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y daflen hon yn gywir ar y dyddiad a ddangosir isod, ond ni ddylid ei chymryd fel datganiad llawn o'r gyfraith.*
*Hawlfraint © Medi 2007 Cyngor Ar Bopeth.*

cyngor ar bopeth